

# Cyngor Cymuned **Bryncrug** Community Council

## Cofnodion pwyllgor a gynhaliwyd ar nos Lun 17eg o Chwefror 2020 am 7:00pm

Presennol: Cynghorydd Richard Evans (Cadeirydd)

Cynghorwyr: Bethan Lawton, Alan H. Jones, Griffith Evan Thomas, Simon Jones

1. Ymddiheuriadau: Cynghorydd Arwel Pierce

2. Datgan diddordeb:

Cynghorydd Bethan Lawton - Eitem 8 - Cais Ariannol gan Dreialon Cŵn Defaid Cenedlaethol Cymru 2020: Buddiant sydd yn rhagfarnu yn sgil swyddogaeth o Is-Gadeirydd y pwyllgor llywio lleol

3. Cae Chwarae - gosod les i Glwb Pêl-droed Tywyn a Bryncrug:

Yr oedd neges e-bost wedi ei dderbyn gan y Clwb Pêl-droed yn dweud bod y clwb wedi penderfynu peidio bwrw ymlaen gyda'u cynlluniau i wella'r adnoddau megis gosod rhagor o seddi, llain concrid o amgylch y cae, uchel-seinydd a rhagor o gawodydd. A byddai hynny yn golygu bod y clwb yn disgyn i gynghrair is.

**PENDERFYNIAD:** Y dylid parhau i geisio ffurfioli y trefniant sydd rhwng y cyngor a'r clwb parthed llogi'r cae a'r pafiliwn, ac y dylai'r Cadeirydd a'r Is-gadeirydd gyfarfod cynrychiolydd o'r clwb er mwyn trafod eu cynlluniau ar gyfer y dyfodol.

4. Derbyn cofnodion pwyllgor 20 Ionawr 2020:

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y cofnodion fel rhai cywir.

5. Derbyn cofnodion 28 Ionawr 2020:

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y cofnodion fel rhai cywir.

6. Cyfrifon i'w talu:

B Gwilym	Cyflog	101687	£183.37
Cyllid a Thollau EM	YG	101688	£45.80
Y Ganolfan	Llogi ystafell	101689	£126.00
Dŵr Cymru	Dŵr	101690	£81.44
Un Llais Cymru	Aelodaeth 2020/21	101691	£123.00

**PENDERFYNIAD:** I dalu'r anfonebau.

7. Cais Ariannol - Dail Dysynni:

**PENDERFYNIAD:** I gyfrannu £50.

8. Cais Ariannol - Treialan Cŵn Defaid Cenedlaethol Cymru 2020 :

Bu i'r Cynghorydd Bethan Lawton ddatgan buddiant sydd yn rhagfarnu. Trafodwyd eitemau 7 i 11 fel un eitem, a ni bleidleisiodd y Cynghorydd Lawton ar yr un rhodd ariannol.

**PENDERFYNIAD:** I gyfrannu £50.

9. Cais Ariannol - Bobath - Canolfan Therapi Plant Cymru:

**PENDERFYNIAD:** Peidio cyfrannu.

10. Cais Ariannol - Clybiau Ffermwyr Ifanc Meirionnydd:

**PENDERFYNIAD:** I gyfrannu £50.

11. Cais Ariannol - Elusen Ambiwlans Awyr Cymru:

**PENDERFYNIAD:** I gyfrannu £50.

12. Llwybrau Cyhoeddus:

**PENDERFYNIAD:** I ysgrifennu at Gyngor Gwynedd er mwyn gofyn i'r swyddogion edrych ar gyflwr y llwybr sydd yn dod lawr o Geufron, wrth cefn Bron Ffynnon ac yn arwain at y ffordd fawr, gan hefyd ofyn i Gyngor Gwynedd ystyried gosod giât wrth ymyl y gamfa cerrig wrth ymyl fferm Tynllwyn. Ysgrifennu at yr Adran Briffyrdd er mwyn gofyn iddynt gynnal arolwg o'r bont droed sydd wrth ymyl Pont Fathew, gan edrych yn benodol ar ochr Dolithel a'r crac sydd wedi ymddangos rhwng y llwybr a'r pont, sydd o bosib yn awgrymu bod y strwythur yn symud.

13. Un Llais Cymru - Aelodaeth 2020/2021:

**PENDERFYNIAD:** I barhau gyda'r aelodaeth yn ystod y flwyddyn 2020/2021.

14. Zurich - Yswiriant:

Adroddodd y Clerc nad oedd newidiadau wedi eu gwneud i'r rhestr o'r asedau a'r symiau, sef cynyddu y swm ar gyfer pontydd yn Nolgoch, y swm ar gyfer yr hysbysfwrdd newydd yn y pentref a'r cysgodfeydd bws.

**PENDERFYNIAD:** Y Clerc i sicrhau bod yr eitemau ychwanegol wedi eu hyswirio a bod lefel y sicrwydd yn addas ar gyfer pob ased.

15. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri - Cais Cynllunio (ail-gyflwyniad) - The Grange, Cil Cemmaes, Brynchrug, LL36 9RG (NP5/55/36D):

**PENDERFYNIAD:** Dim gwrthwynebiad.

16. Llywodraeth Cymru - Gorchymyn Cefnffordd Abergwaun i Fangor (A487) (Pont newydd dros Afon Dyfi):

Derbyniwyd copiâu papur o'r mapiau sydd ynghlwm a'r cynllun.

**PENDERFYNIAD:** Derbyn y wybodaeth.

17. Cyfethol aelodau i'r Cyngor:

Adroddodd y Clerc bod 3 sedd gwag, a bod y Cyngor wedi hysbysebu yn 2017 y byddai'r cyngor yn cyfethol aelodau. Yr oedd hyn o'r herwydd nad oedd etholiad wedi ei gynnal yn 2017 yn sgil diffyg ymgeiswyr.

Bu i'r Cyngor lunio restr o unigolion er mwyn gofyn iddynt ystyried cyflwyno cais i fod yn Gyngorydd Cymuned.

**PENDERFYNIAD:** I ysgrifennu at yr unigolion er mwyn gofyn iddynt ystyried cyflwyno cais.

18. Cae Chwarae - Adroddiad:

Adroddwyd y canlynol:

-contractwr wedi gorffen y gwaith i'r pafiliwn

-y pafiliwn yn fudr oherwydd nad oedd defnyddwyr y pafiliwn yn ei lanhau

-2 postyn o amgylch y cae pêl-droed wedi torri

-y dylid ddymchwel y siglen gan ei fo wedi cyrraedd diwedd ei oes ac er mwyn sicrhau iechyd a diogelwch y defnyddwyr

-dyfynbris wedi ei dderbyn ar gyfer siglen newydd: un unigol yn £1,461 a siglen dwbl sydd yn cynnwys sedd nyth yn £3,360. Gyda'r prisiau ddim yn cynnwys y gost o gosod a postio.

-byddai'r gost o osod y siglen ddwbl yn uwch oherwydd yr angen i osod rhagor o fatiau diogelwch

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y wybodaeth.

I ofyn wrth contractwr y cyngor i ddymchwel y siglen.

I awdurdodi'r Cadeirydd, yr Is-Gadeirydd a'r Clerc i wneud penderfyniad i brynu siglen newydd ar ôl derbyn dyfynbris am osod yr offer, gyda'r penderfyniad i'w wneud cyn y cyfarfod nesaf oherwydd yr angen i dymchwel yr hen siglen fel mater o frys.

19. Clwb Ieuenctid Brynchrug:

Adroddwyd y canlynol:

-Yr oedd ffigurau y nifer o unigolion sydd yn mynychu'r clwb yn parhau i fod yn isel

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y wybodaeth.

20. Adroddiad y Cynghorydd Sir:

Adroddwyd y canlynol:

Yr oedd cwynion wedi ei dderbyn am ddŵr yn eistedd ar y ffordd wrth Cul Cemaes a bod Cyngor Gwynedd wedi anfon swyddogion.

-Cwynion yn cael ei dderbyn parthed arwydd Cefn Coed.

-Cwyn wedi ei dderbyn am fusnes yn llosgi coed, gyda'r Cynghorydd wedi adrodd y mater i Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri a bod y mater yn nwylo'r awdurdod.

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y wybodaeth  
I ail-anfon y llythyrau sydd eisoes wedi mynd at Adran Briffyrdd yn gofyn i'r adran symud arwydd Cefn Coed tuag at Pont Fathew.

21. Unrhyw fater brys ym marn y Cadeirydd:

Nid oedd unrhyw fater brys.

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y wybodaeth.

Bu i'r cyfarfod ddirwyn i ben am 7:55pm

Llofnod y Cadeirydd .....